Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Pennaeth Dysgu Ar-lein

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Swydd Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Proffesiynol |
| **Adran/Pwnc:** | Gwasanaethau Addysg |
| **Cyflog:** | £56,021 i £64,914 y flwyddyn a buddion pensiwn USS (pro rata os yw'n rhan-amser) |
| **Oriau gwaith:** | Amser Llawn (35 awr yr wythnos) |
| **Contract:** | Dyma swydd am gyfnod penodol o 6 mis i ddechrau (gyda'r potensial am estyniad) |
| **Lleoliad:** | Gall deiliad y swydd hon weithio o bell neu mewn modd hybrid. |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Mae Prifysgol Abertawe'n brifysgol a arweinir gan ymchwil sydd wedi bod yn gwneud gwahaniaeth ers 1920. Mae cymuned y Brifysgol yn ffynnu ar archwilio a darganfod ac mae'n cynnig y cydbwysedd cywir rhwng addysgu ac ymchwil rhagorol i gyd-fynd ag ansawdd bywyd ardderchog.<br><br>Mae ein campysau glan môr trawiadol a'n cymuned amlddiwylliannol yn gwneud y Brifysgol yn weithle dymunol i gydweithwyr o bedwar ban byd. Mae ein cydnabyddiaeth a'n buddion, a'n ffyrdd o weithio, yn galluogi'r rhai hynny sy'n ymuno â ni i gael gyrfaoedd gwobrwyol, ynghyd â chydbwysedd rhagorol rhwng bywyd a gwaith. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Mae Prifysgol Abertawe yn datblygu rhaglen uchelgeisiol o ddysgu ar-lein — Abertawe Ar-lein— a fydd yn gwella ac yn arallgyfeirio ei phortffolio addysgol, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ddeniadol i anghenion pob dysgwr. Bydd Abertawe Ar-lein yn cyfuno arbenigedd presennol y Brifysgol mewn arloesi addysgol â'r partneriaid masnachol allanol er mwyn datblygu a darparu rhaglenni a chyrsiau ar-lein o safon ar raddfa ac yn gyflym.<br><br>Mae'r Brifysgol yn chwilio am arweinydd medrus a phrofiadol sydd â'r gallu i sefydlu rhaglen Abertawe Ar-lein. Gan weithio ochr yn ochr â noddwr y prosiect, ac mewn cydweithrediad â staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol ar draws y Brifysgol, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol allweddol, bydd y XX yn gyfrifol am weithredu gweledigaeth y Brifysgol ar gyfer dysgu ar-lein ar raddfa. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol ffocws cryf ar fusnes a rheoli prosiectau, ynghyd â phrofiad sylweddol o bartneriaeth a darpariaeth fasnachol yn y sector addysg uwch. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r cyfleoedd a'r heriau strategol a gweithredol wrth arallgyfeirio yn y sector addysg uwch. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Datblygu'r cynllun busnes ar gyfer Abertawe Ar-lein; gan gynnwys cyllideb ar gyfer gwariant ac incwm i gyfnod cychwynnol y prosiect a 'busnes fel arfer', yn seiliedig ar fewnwelediadau i'r farchnad ac yn cyd-fynd â strategaethau'r Brifysgol.<br>2. Sicrhau bod modelau dyrannu adnoddau ar gyfer pob rhaglen yn gyraeddadwy, yn ddichonol yn ariannol ac y gellir eu darparu yn unol â'r gyllideb ac ar amser, i safonau ansawdd diffiniedig;<br>3. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyfadrannau a Gwasanaethau Proffesiynol, sefydlu Uned Dysgu Ar-lein a fydd yn goruchwylio elfennau dylunio, datblygu, cynhyrchu a chreadigol rhaglenni a chyrsiau Ar-lein Abertawe.<br>4. Datblygu prosesau a llywodraethu priodol ar gyfer datblygu dysgu ar-lein, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ac uchelgeisiau, prosesau a gweithdrefnau strategol y Brifysgol;<br>5. Pennu amserlen ar gyfer datblygu, cyflwyno a darparu rhaglenni a chyrsiau ar-lein o safon, sy'n ddeniadol i ystod amrywiol o ddysgwyr;<br>6. Meithrin a chynnal perthnasoedd a rhwydweithiau gwaith effeithiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, yn fewnol ac yn allanol i'r Brifysgol;<br>7. Cynghori ar ddatblygu Abertawe Ar-lein yn y dyfodol, drwy graffu ar y gorwel yn y DU ac yn rhyngwladol, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau addysg ddigidol arloesol; |

| | |
|---|---|
| | 8. Cynrychioli Abertawe Ar-lein mewn pwyllgorau a grwpiau perthnasol y Brifysgol i sicrhau y datblygir y prosiect yn effeithiol;<br>9. Bod yn gyfrifol am fonitro ac adrodd, gan ddarparu adroddiadau rheolaidd am gynnydd a gwybodaeth ystadegol ar draws pob maes cyflwyno;<br>10. Nodi, rheoli neu uwchgyfeirio unrhyw risgiau i'r gwasanaeth sy'n berthnasol i'r gweithgarwch diffiniedig ar gyfer y rôl hon;<br>11. Dylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar lefel yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod Abertawe Ar-lein yn cyflawni amcanion strategol y Brifysgol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol<br>2. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd<br>3. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig craidd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>Yn ogystal, byddwch yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn datblygu'n bersonol ac yn datblygu ein timau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys ein pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesedd a newid, gan wella perfformiad y Brifysgol, timau ac unigolion.<br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timau i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn gyfrifol am greu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, gan gyfleu'r "darlun mawr" a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br>**Rydym yn ofalgar**<br>Rydym yn creu amgylcheddau sy'n nodi ac yn deall anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd), gan roi blaenoriaeth i ddiwallu'r rhain. Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timau i ddarparu'r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol**<br>1. Addysg at lefel ôl-raddedig;<br>2. Profiad sylweddol ar lefel uwch o arwain ar ddatblygu strategaethau ar gyfer dylunio a gweithredu dysgu o safon, gan gynnwys profiad helaeth o greu cyrsiau mewn amgylcheddau academaidd cymhleth;<br>3. Hanes llwyddiannus wrth gyflawni gweledigaeth sefydliadol ar gyfer arloesi addysgol, gan gynnwys dysgu ar-lein; |

| | |
|---|---|
| | 4. Profiad o arwain a rheoli timau o weithwyr proffesiynol i gyflawni amcanion a rennir, ynghyd â'r gallu i ennyn diddordeb staff, eu hysgogi a'u datblygu;<br>5. Profiad sylweddol o weithio'n effeithiol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr masnachol, i ddiffinio a darparu dulliau ac atebion arloesol mewn addysg;<br>6. Dealltwriaeth ymarferol a strategol o bob agwedd ar gylch bywyd myfyrwyr gan gynnwys dylunio, cyflwyno ac asesu cwricwlwm mewn perthynas â dysgu ar-lein;<br>7. Tystiolaeth o'r gallu i gydweithio fel rhan o dîm i ddiffinio a gweithredu sianeli cyfathrebu effeithiol, rhoi mentrau rheoli newid ar waith a chefnogi lles staff;<br>8. Profiad o reoli adnoddau ariannol, eu rhoi ar waith er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, gwerthuso darpariaethau presennol, rhagweld anghenion y dyfodol, a gwneud dyraniadau cyllidebol priodol;<br>9. Sgiliau hynod effeithiol o ran cyfathrebu, negodi, dylanwadu a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y gallu i gyflwyno syniadau cymhleth i gynulleidfaoedd technegol ac annhechnegol.<br>10. Profiad helaeth o reoli prosiectau'n effeithiol ac yn effeithlon.<br>**Meini Prawf Dymunol**<br>11. Gwybodaeth am blatfformau dysgu ar-lein a phartneriaethau addysgol yn y maes hwn;<br>12. Dealltwriaeth gref o dechnolegau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a ddefnyddir ym myd addysg, a thystiolaeth o lefel uchel o allu digidol.<br>13. Profiad o weithio yn y sector addysg uwch. |
| **Cymraeg Lefel Iaith** | Lefel 1 – 'ychydig' - ynganu geiriau Cymraeg. Gallu ateb y ffôn yn y Gymraeg (bore da / prynhawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr. |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru — Diversity Champion

HR Excellence in Research